# Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Dydd Mercher 30 Gorffennaf 2025

Neuadd y Sir
Wynnstay Road
Rhuthun
LL15 1YN

## RHAGLEN

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Croeso, Cyflwyniadau | KS/ Pawb |
| **2** | Cynnig a chyflwyniad Teithio Llesol gan Kevin Slattery a John Buckley | KS/ JB |
| **3** | 29.04.25 Cyfarfod Symud - adborth gan Chris Ruane | CR |
| **4** | Chris Ruane i rannu ymchwil am yr hyn y mae Fforymau Mynediad Lleol eraill yn canolbwyntio arno. | CR |
| **5** | Siaradwyr yn y dyfodol - Cyfle i'r aelodau awgrymu siaradwyr a blaenoriaethu pynciau trafod. | Pawb |
| **6** | Cynllunio amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. | Pawb |
| **7** | Unrhyw Fater Arall | Pawb |

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sophie Birchall Rogerson | SBR | CBSC | |
| Bethan Roberts | BR | CBSC | |
| Caroline Turner | CT | CBSC | |
| Howard Sutcliffe | HS | CSDd | |
| Adrian Walls | AW | CSDd | |
| Hannah Ardent | HA | CSDd | |
| Tanya Evans | TE | CSDd | |
| Peter Rutherford | PR | APCE | |
| Emma McCloskey | EM | Aelod Fforwm (dros Teams) | |
| Andy Murir | AM | Aelod Fforwm | |
| Kevin Slattery | KS | Aelod Fforwm | Is-Gadeirydd yn gweithredu fel Cadeirydd yn absenoldeb CR |
| John Buckley | JB | Aelod Fforwm | |
| Geraint Roberts | GR | Aelod Fforwm | |
| Lucy Powell | LP | Aelod Fforwm | |
| Heather Fitzgerald | HF | Aelod Fforwm | |
| Leena Farhat | LF | Aelod Fforwm | Ymddiheuriadau |
| Tom Johnstone | TJ | Aelod Fforwm | Ymddiheuriadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Katherine Goodey | KG | Aelod Fforwm | Ymddiheuriadau |
| Graham Taylor | GT | Aelod Fforwm | Ymddiheuriadau |
| Chris Ruane | CR | Aelod Fforwm | Ymddiheuriadau |
| Y Cynghorydd Barry Mellor | BM | CSDd | Ymddiheuriadau |
| Ant Tomlinson | AT | CSDd | Ymddiheuriadau |
| Y Cynghorydd Goronwy Edwards | GE | CBSC | Ymddiheuriadau |
| | | | |

**COFNODION**

| Eitem | | Cam Gweithredu: |
|---|---|---|
| | **Rhan 1** | |
| **1.0** | **Croeso a chyflwyniadau** | |
| 1.1 | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan KS a chyflwynodd yr aelodau fforwm eu hunain. | |
| **2.0** | **Cynnig a chyflwyniad Teithio Llesol gan Kevin Slattery** | |
| 2.1 | Cyflwynodd KS gynnig 1: Dylai'r cyhoedd gael gwybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â Hawliau Tramwy a thir Mynediad. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am unrhyw achosion o gau ac ati a dylai fod ar gael, a) ar wefannau'r Cyngor, b) fel system e-bost lle gall preswylwyr gofrestru i gael hysbysiadau am yr uchod cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi, c) mewn canolbwyntiau fel llyfrgelloedd a chanolfannau croeso.<br><br>Dywedodd AW fod yr Awdurdod yn darparu cofrestrau statudol ar gyfer gwyriadau, gorchmynion map diffiniol a datganiadau Adran 31 (6) yn ogystal â cheisiadau cynllunio ar gyfer gorchmynion priffordd arferol. Eglurodd fod cyfyngiadau ar allu gweithredu awgrymiadau KS, fel materion seiberddiogelwch, cyfyngiadau TG ac amserlen, gorfod cydymffurfio â safonau cynhwysiant a hygyrchedd y Llywodraeth.<br><br>Eglurodd SBR hefyd fod yn rhaid i wybodaeth a gaiff ei rhoi ar wefan yr Awdurdod gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), sy'n golygu mai dim ond gwybodaeth sylfaenol iawn a gaiff ei rhannu, oherwydd ni fydd TG yn caniatáu i ddogfennau sy'n cynnwys data personol gael eu rhoi ar y wefan. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 | Cyflwynodd KS gyflwyniad ar Deithio Llesol | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mynegodd KS bryder am gost Teithio Llesol rhwng 2018 a 2024 a bod y ganran o bobl sy'n beicio wedi aros ar 6% rhwng 2019-2020 a 2022-2023. Awgrymodd KS strategaethau i wella nifer y bobl sy'n beicio, e.e. cysylltu mwy o lonydd beicio, symud gylïau priffyrdd, trefnu bod enwogion ac aelodau amlwg o gymdeithas Cymru yn hysbysebu, mynd i mewn i ysgolion i addysgu.<br><br>Awgrymodd SBR wahodd peiriannydd traffig i ddod i siarad â'r fforwm am weithredu a rheoli teithio llesol ac i ateb cwestiynau. Cytunodd SBR y dylid bod ag elfen o addysg bob amser yn enwedig ar gyfer y genhedlaeth iau. Eglurodd fod cyfyngiadau posibl o ran symud gylïau, oherwydd eu bod yn ffurfio rhan o swyddogaeth y briffordd, a bod safonau dylunio caeth ar gyfer isadeiledd teithio llesol a phriffyrdd. Gall y ddeddfwriaeth benodol ar isafswm lled gyfyngu ar nifer y ffyrdd sy'n addas ar gyfer lonydd beicio.<br><br>Atgoffodd HA KS fod swyddog o CBSC wedi siarad â'r Fforwm blaenorol am fanylebau uchel ar gyfer llwybrau teithio llesol, sy'n ei gwneud yn anodd iawn ôl-osod ffyrdd presennol. Ni fyddai'r enghreifftiau o ffyrdd yn Llundain a roddwyd yn y cyflwyniad yn bodloni'r fanyleb a roddir yng nghanllawiau Teithio Llesol Cymru. Awgrymodd HA bod y broses Adolygu Teithio Llesol yn ffordd o ddylanwadu ar y meysydd y caiff arian ei wario, a'r canllawiau, a allai fod o fudd i fwy o bobl yn y pen draw.<br><br>Cyflwynodd Kevin gynnig 2: Cyn i brosiectau Teithio Llesol gael eu gweithredu, dylid ymgynghori â chyrff â diddordeb, fel grwpiau cerdded a beicio, ysgolion, y Fforwm Mynediad Lleol, a chonsortia'r diwydiant a manwerthu.<br><br>Awgrymodd PR ethol is-grŵp i drafod eu prif bryderon ac ysgrifennu llythyr ffurfiol at y Gweinidog. Gellir trafod yr ymateb yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Eglurodd AW na allai'r un o'r swyddogion oedd yn bresennol ateb ar ran teithio llesol, felly bydd rhaid i'r Fforwm gyflwyno eu cynigion i CBSC a CSDd.<br><br>Gofynnodd SBR i'r aelodau anfon eu cwestiynau at affch@conwy.gov.uk, a fydd yn anfon eu cais ymlaen at yr adran berthnasol, ac awgrymodd wahodd swyddogion teithio llesol i ddod i roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pleidleisiodd pob aelod o blaid KS yn anfon y cynigion at CBSC a CSDd i gael ymateb. | |
| **3.0** | **29.04.25 Cyfarfod Symud - adborth gan Chris Ruane** | |
| 3.1 | Nid oedd CR yn gallu bod yn y cyfarfod felly ni thrafodwyd yr eitem hon. | |
| | **Rhan 3** | |
| **4.0** | **Chris Ruane i rannu ymchwil am yr hyn y mae Fforymau Mynediad Lleol eraill yn canolbwyntio arno** | |
| 4.1 | Nid oedd CR yn gallu bod yn y cyfarfod felly ni thrafodwyd yr eitem hon. | |
| **5.0** | **Siaradwyr yn y dyfodol - Cyfle i'r aelodau awgrymu siaradwyr a blaenoriaethu pynciau trafod** | |
| 5.1 | Cytunodd pawb i wahodd swyddogion teithio llesol i siarad yn y cyfarfod nesaf. | **BR** |
| **6.0** | **Cynllunio amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol** | |
| 6.1 | BR i anfon dyddiadau chwarterol. | **BR** |
| **7.0** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Gwahoddodd PR yr aelodau i edrych ar gofnodion Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Eryri ar eu gwefan i weld beth maen nhw'n ei drafod.<br><br>Awgrymodd HS y gallai aelodau CEDLAF ymuno â chyfarfod nesaf ENPLAF i arsylwi. | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |